# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar St Joseph's Catholic School and 6th form Centre

Dyddiad yr arolygiad: 19/01/2026

# Crynodeb

Mae Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Sant Joseff yn gymuned groesawgar a chynhwysol lle mae'r ethos Catholig yn rhoi sail gref i fywyd yr ysgol. Dros y deuddeg mis diwethaf, mae'r ysgol wedi bod trwy gyfnod heriol. Fodd bynnag, trwy gydol y cyfnod hwn, mae ymrwymiad staff wedi parhau'n ddwfn, gan barhau i gefnogi'r disgyblion a chefnogi ei gilydd, er gwaethaf yr heriau a wynebir.

Mae arweinwyr a staff ar bob lefel yn cydweithio i sicrhau bod diwylliant diogelu cryf yn ganolog i waith yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth gefnogol ac yn parhau i lywio'r ysgol trwy gyfnodau heriol. Mae'n adnabod yr ysgol yn dda ac yn ystyried lles disgyblion a staff yn ofalus. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau presennol o ran arweinyddiaeth yn deg nac yn gynaliadwy dros yr hir-dymor. Er bod arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda, nid ydynt yn ddigon manwl na miniog o ran eu gwerthusiad o effaith yr addysgu ar ddysgu disgyblion.

Er gwaethaf gwelliannau diweddar mewn cynllunio, mae'n ddyddiau cynnar o ran darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion. Mae tua hanner y disgyblion yn cael trafferth â chywirdeb gramadegol a sillafu, ac nid eir i'r afael â hyn na'i gywiro. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau rhifedd na'u medrau digidol mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm.

Yn y rhan fwyaf o wersi, ceir perthnasoedd cadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion, sy'n cyfrannu at awyrgylch tawel a chynhyrchiol. Mae mwyafrif yr athrawon yn cynnig gweithgareddau dysgu addas i ddisgyblion. Yn y gwersi hyn, mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus, ac yn cydweithio'n effeithiol. Mae ychydig o wersi'n hynod effeithiol, lle mae athrawon yn holi'n fedrus i brocio dealltwriaeth disgyblion, ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n tyfu i fod yn gynyddol heriol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig o ganlyniad i ddiffyg her a holi gwan.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn eu helpu i wneud cynnydd addas yn erbyn eu targedau unigol. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn gwrtais a chroesawgar ag ymwelwyr, mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac maent yn cyfrannu'n dda yn ystod gwersi. Mae'r ysgol yn dechrau datblygu cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain a chyfrifoldebau ysgol gyfan. Ceir amrywiaeth eang o weithgareddau cyfoethogi, yn cynnwys clybiau ac ymweliadau diwylliannol, sy'n ategu'r cwricwlwm ac ethos a gwerthoedd Catholig yr ysgol. Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gwella'n dda, ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pum argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:**

A1 Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr wedi'u diffinio'n glir ac yn cynnwys cydbwysedd da, a bod arweinwyr ar bob lefel yn dwyn staff i gyfrif yn llawn am eu gwaith.

A2 Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.

A3 Gwella darpariaeth ar gyfer medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion fel eu bod yn cael cyfleoedd ystyrlon a heriol i ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

A4 Gwella effeithiolrwydd addysgu.

A5 Gwella cydlynu'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd a medrau digidol disgyblion.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2026